School Entry Health Review

This information may be helpful now that your child is in full time school.

Does your child have a medical condition e.g. Asthma, Diabetes, Eczema, Epilepsy, or a severe allergy - that may require emergency injection?
Please ensure that your child's school is informed about your child's medical condition and of any medication or treatment your child requires during the school day. The school may suggest that an individual health care plan is in place in order to support your child.

Are you concerned about your child's vision, hearing, or speech?

- A distance vision screen will be undertaken in school by the School Nursing Service.

This is the only routine vision screen in school. It is recommended that all children should have free regular eye checks with their local optometrist (optician).

- A hearing screen will be undertaken in school by the Audiologist.
- Referrals for speech therapy are made by your child's school. *Please discuss with your child's teacher.*

Are you concerned about your child's growth e.g. short or tall stature, under or overweight?
Your child's growth will be measured by the School Nursing Service.
For information on helping children to stay fit and healthy visit *www.everychildwales.co.uk*

Are you concerned about your child's emotional health and wellbeing or behaviour?
For helpful hints and tips for parents on promoting positive behaviour visit: www.giveittime.gov.wales

Are you concerned about your child's learning?
Please discuss with your child's teacher. An individual development plan may be required.

Are you concerned about your child day/night time wetting or constipation?
For helpful information visit www.eric.org.uk

Is your child up to date with their immunisations?
Your personal child health record (red book) should include details and your School Nurse will also check your child's health record.
For more information about immunisations visit: nhs.uk/doityourself/vaccinations/leaflets/
If your child needs any immunisations please contact your GP.

Is your child registered with a dentist?
It is recommended that children should see a dentist at least annually.
For dental health advice visit http://www.designedtosmile.org/
.

Does anyone in your child's home smoke?
Free friendly support to quit smoking is available from *www.helpmequit.wales* Tel: 0800 085 2219

For details of local services and organisations that can help visit: https://www.dewis.wales/home

The School Nurse may contact you to discuss your child's health as part of the health review. Please contact your School Nurse if you wish to discuss your child's health now or at any time in the future.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Swansea Bay University Health Board

Arolwg Iechyd Adeg Mynediad i'r Ysgol

A'ch plentyn yn mynd i'r ysgol yn amser llawn, gallai'r manylion hyn fod yn ddefnyddiol.

Oes anhwylder meddygol ar eich plentyn e.e. Asthma, Diabetes, Ecsema, Epilepsi, neu alergedd dybryd – a allai olygu y bydd angen pigiad brys arno/arni?
Gwnewch yn siŵr fod yr ysgol yn cael ei hysbysu am gyflwr meddygol eich plentyn, ac am unrhyw foddion neu driniaeth sydd angen ar eich plentyn yn ystod y diwrnod ysgol. Gallai'r ysgol awgrymu bod cynllun gofal iechyd personol yn cael ei greu i gynorthwyo'ch plentyn.

Ydych chi'n pryderu am olwg, clyw neu leferydd eich plentyn?

- Bydd Gwasanaeth Nyrsio'r Ysgolion yn sgrinio golwg pellter y plant yn yr ysgol.

Dyma'r unig sgriniad a wneir yn yr ysgol fel mater o drefn. Argymhellir bod pob plentyn yn mynd yn rheolaidd at yr optometrydd (optegydd) lleol i gael gwiriad llygaid yn rhad ac am ddim.

- Bydd yr Awdiolegydd yn sgrinio clyw yn yr ysgol
- Mae ysgol eich plentyn yn arfer atgyfeirio plant i dderbyn therapi lleferydd. *Dylech chi drafod hyn gydag athrawes/athro'ch plentyn.*

Ydych chi'n pryderu am dwf y plentyn e.e. byrder neu daldra, pwysau isel neu uchel?
Bydd Gwasanaeth Nyrsio'r Ysgolion yn mesur twf
eich plentyn.
I ddysgu am sut i helpu plant i aros yn iach ac yn heini, ewch at: *www.everychildwales.co.uk*

Ydych chi'n pryderu am iechyd a lles emosiyniol y plentyn neu am sut mae'n bihafio?
Mae awgrymiadau defnyddiol i rieni ynghylch hybu ymddygiad positif ar: www.giveittime.gov.wales

Ydych chi'n pryderu am gyflymder dysgu'ch plentyn chi?
Trafodwch hyn gydag athrawes/athro'r plentyn. Efallai y bydd angen cynllun datblygu personol.

Ydych chi'n pryderu bod y plentyn yn gwlychu yn y dydd/nos neu am rwymedd?
Gwelwch wybodaeth ddefnyddiol ar: www.eric.org.uk

Ydy'ch plentyn wedi derbyn yr holl frechiadau (pigiadau) y dylai eu cael?
Dylai cofnod iechyd personol y plentyn (llyfr coch) gynnwys y manylion hyn, a bydd Nyrs yr Ysgol yn gwirio cofnod iechyd y plentyn hefyd.
I ddysgu rhagor am frechiadau ewch at: nhs.uk/doityourself/vaccinations/leaflets/
Os oes angen brechiadau ar eich plentyn, cysylltwch â'ch Meddyg Teulu.

Ydy'ch plentyn chi wedi cofrestru gyda deintydd?
Argymhellir y dylai plant weld deintydd o leiaf unwaith y flwyddyn.
I weld cyngor am iechyd deintyddol, ewch at: http://www.designedtosmile.org/

A oes rhywun yn arfer smygu yng nghartref y plentyn?
Mae cymorth cyfeillgar i roi'r gorau i smygu ar gael yn rhad ac am ddim ar: *www.helpmequit.wales*
Ffôn: 0800 085 2219

Mae manylion gwasanaethau a sefydliadau lleol a all eich helpu ar: https://www.dewis.wales/home

Gall Nyrs yr Ysgol gysylltu â chi i drafod iechyd y plentyn fel rhan o'r arolwg iechyd. Cysylltwch â Nyrs yr Ysgol os carech chi drafod iechyd eich plentyn, nawr neu unrhywbryd yn y dyfodol.